Waldo Williams: 1904–1971

Y gŵr tawel

Heddychiaeth / gwladgarwr

Oes gennych chi arwr? Efallai bod eich arwr chi yn dod o fyd pêl-droed neu o fyd y ffilmiau. Un o arwyr gŵr y stori hon oedd Mahatma Gandhi. Doedd Gandhi ddim yn Gristion ond roedd yn hoff iawn o Iesu Grist. Drwy ei oes bu Waldo Williams yn edmygu'r gŵr hwn o India.

Athro oedd Waldo ac roedd ganddo feddwl y byd o'r plant. Byddai'r plant yn awyddus iawn i Waldo chwarae efo nhw ar y buarth yn ystod amser chwarae. Gyda'r nos byddai plant yr ardal yn cnocio ar ddrws ei dŷ a gofyn, "Ydych chi'n dod i chwarae efo ni?" Yn ddi-feth byddai Waldo yn fwy na pharod i ymuno efo'r plant yn eu chwarae.

Ond nid fel athro yn unig y cofiwn am Waldo. Fel ei arwr, Gandhi, roedd yn casáu rhyfel. Roedd ei rieni, fel yntau, yn heddychwyr. Mae heddychwyr yn erbyn unrhyw fath o ryfela. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd gwrthododd Waldo fynd i frwydro a gwrthododd ymuno â'r lluoedd arfog. Yn ystod rhyfel Korea, teimlai Waldo i'r byw fod pobl ddiniwed yn cael eu lladd. Gwrthododd dalu ei dreth incwm. Credai fod arian oedd yn cael ei gasglu ar gyfer y dreth incwm yn cael ei ddefnyddio i hybu rhyfel. Roedd yn benderfynol nad oedd am roi ceiniog goch i'r dreth incwm. Carcharwyd ef am gyfnod. Roedd yn ddyn penderfynol iawn.

Pan oedd yn fyfyriwr yn y Coleg yn Aberystwyth byddai ef a ffrind iddo yn ysgrifennu caneuon ysgafn. Roedd hyn yn fan cychwyn i ddiddordeb a arhosodd efo fo drwy gydol ei oes. Bardd oedd Waldo yn anad dim arall. Ychydig iawn o farddoniaeth a ysgrifennodd ar gyfer plant, er mor hoff yr oedd ohonyn nhw. Roedd yn barddoni am yr hyn oedd yn agos at ei galon. Canodd i Mahatma Gandhi a chanodd hefyd i'w fro ei hun yn Sir Benfro. Roedd Cymru a'i phobl yn agos iawn at ei galon.

Pan oedd Waldo'n saith oed symudodd y teulu o Hwlffordd i Fynachlogddu, Sir Benfro. Dyma'r adeg y dechreuodd ddysgu Cymraeg. Cafodd ei dderbyn ar ei union gan blant a phobl y fro. Tyfodd Waldo gyda phlant yr ardal a daeth yr ardal yn rhan bwysig

ohono. Y Preseli oedd ei gynefin a ble bynnag y byddai'n mynd ni fyddai'r Preseli ymhell o'i feddwl.

"Fy Nghymru, a bro brawdoliaeth, fy nghri, fy nghrefydd." meddai yn un o'i gerddi. Roedd yr ardal yn bopeth iddo.

Gwelodd fygythiad i ardal y Preseli. Cyhoeddodd y lluoedd arfog eu bod am ddefnyddio tuag un fil ar bymtheg o aceri o dir yr ardal yn faes ymarfer saethu. Protestiodd yn erbyn hyn a sgwennodd am ei bryder yn ei gerdd i'r Preseli:

"Cadwn y mur rhag y bwystfil,
cadwn y ffynnon rhag y baw."

Nid gwrthod ymladd mewn rhyfeloedd yn unig a wnaeth Waldo, ond protestiodd yn gyson ar hyd ei oes. Gŵr tawel, heddychlon oedd Waldo. Ond roedd yn ŵr penderfynol fel ei arwr o'r India.

"Yn rhy hir y bûm yn byw gyda'r rhai sy'n casáu heddwch."

Salm 120:6

"Bellach nid oes gan Grist gorff ar y ddaear ond eich corff chwi,
gyda'ch dwylo chwi yn unig y gall wneud ei waith,
â'ch traed chwi yn unig y gall droedio'r byd,
trwy eich llygaid chwi yn unig y gall ei dosturi lewyrchu ar fyd cythryblus.
Bellach nid oes gan Grist gorff ar y ddaear ond eich corff chwi."
Amen.

(Gweddi Teresa o Avila)

Ydych chi'n credu bod bardd yn edrych ar ei fyd trwy lygaid gwahanol i ni?